

PWYLLGOR CYNLLUNIO
21 MEHEFIN 2023

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 21 Mehefin 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer a Mike Peers

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr: Helen Brown, Paul Cunningham, Gladys Healey a Dan Rose

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorwyr David Richardson ac Andy Hughes - eitem rhif 6.2 ar y rhaglen (FUL/000034/22)

Y Cynghorydd Pam Banks - eitem rhif 6.3 ar y rhaglen (OUT/000496/22)

Y Cynghorydd Andrew Parkhurst (aelod ward cyffiniol) - eitem rhif 6.4 ar y rhaglen (FUL/000722/22)

Mynychodd y Cynghorwyr Glyn Banks a Christine Jones fel arsylwyr.

HEFYD YN BRESENNOL: Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democraidd

1. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cadeirydd y Cynghorydd Mike Peers yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Hilary McGuill. Ni chafwyd enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Mike Peers yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

2. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd pob Aelod o'r Pwyllgor oedd yn bresennol gysylltiad personol yn eitem rhif 7.2 (FUL/000034/22) ar y rhaglen gan fod y gwrthwynebwyr wedi cysylltu â nhw.

3. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r eitem yn y rhaglen ar wefan y Cyngor:

<https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5287&LLL=0>

4. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2023 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Bernie Attridge eu cynnig a'u heilio.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi eu hargymhell i'w gohirio.

6. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel maent ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

7. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Roedd wyth aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 4.20pm)

.....

Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwyllo drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yma: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

Y PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 21 MEHEFIN 2023

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
RES/ 000658/22	Cyngor Cymuned Sealand	Cais materion a gadwyd yn ôl - Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn caniatâd amlinellol 063145 ym Mhorth y Gogledd (Cam 3), cyn safle Corus, Garden City	Siaradodd Matt Grant (yr ymgeisydd) o blaid y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar Rwymedigaeth Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.
FUL/ 000034/22	Cyngor Tref Cei Connah	Cais llawn - Adeiladu datblygiad preswyl gyda 141 o anheddau a gwaith cysylltiedig yn Highmere Drive, Cei Connah.	Siaradodd Angela Williams (Preswilydd) yn erbyn y cais. Siaradodd Philip Moren (Asiant) o blaid y cais. Siaradodd y Cyngorwyr David Richardson ac Andy Hughes (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar Rwymedigaeth Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
OUT/ 000496/22	Cyngor Cymuned Mostyn	Cais amlinellol - ar gyfer datblygiad preswyl gyda'r holl faterion ar gadw gan eithrio mynedfa ar dir ger Ffordd Pennant, Maes Pennant, Mostyn	<p>Siaradodd Alex Barons (Preswlydd) yn erbyn y cais.</p> <p>Siaradodd Vanessa Rowell (Asiant) o blaid y cais.</p> <p>Siaradodd y Cynghorydd Pam Banks (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.</p>	<p>Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar Rwymedigaeth Adran 106/Ymgymeriad Unochrog (fel y'i diwygiwyd isod) a'r amodau a nodir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.</p> <p>Paragraff 2.01(b) i gael ei ddiwygio i ddarllen: 'Taliad o £35,200 pan fydd 25% anheddau arfaethedig wedi'u meddiannu tuag at ddarpariaeth a gwella cyfleusterau hamdden yn yr ardal chwarae bresennol ym Maes Pennant.'</p>
FUL/ 000722/22	Cyngor Cymuned Ysceifiog	Amrywio/Dileu Amod - Amrywio Amod 2 Cyfeirif Cynllunio: 037406 yn Chwarel Fron Haul, Nannerch, Yr Wyddgrug	<p>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran Sally Heaney (Preswlydd).</p> <p>Siaradodd Maria Cotton (Ymgeisydd) o blaid y cais.</p> <p>Siaradodd y Cynghorydd Andrew Parkhust (Aelod Ward gyffiniol), yn erbyn y cais.</p>	<p>Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau (fel y'i diwygiwyd isod) a Chytundeb Adran 106 diwygiedig fel y nodir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.</p> <p>Amod 4 i nodi: 'Cyfyngu ar y math o ddeunydd i gael ei gloddio a phrosesu i fod yn dywod a gro o Faes Mynnan a Fron Haul yn unig.;</p>

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
				Amod ychwanegol 60: 'Cyfleusterau ar gyfer llwytho, dadlwytho, parcio a throi cerbydau i gael eu darparu ar y safle.'
FUL/ 000186/22	Cyngor Cymuned Gwernaffield	Cais llawn – Cais ôl-weithredol am ardal decin yn yr ardd yn High Croft, Ffordd Cilcain, Pantymwyn	Siaradodd Angela Davies (Preswylydd) yn erbyn y cais. Siaradodd y Cyngorydd Adele Davies-Cooke (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. Amod ychwanegol i fynd i'r afael ag uchder a gwaith cynnal a chadw'r gwrych mewn ymgynghoriad gyda'r ddau barti a'r Aelod Lleol.